

Bywgraffiad: Thomas Ang

Astudiodd Thomas yn y Royal Academy of Music gyda Hamish Milne a Diana Ketler ac yn y Guildhall School gyda Andrew West ac Eugene Asti. Enillodd wobrau am ei berfformiadau o weithiau Beethoven, Frederick Delius, Arthur Bliss a repertoire cyfoes y piano, a daeth clod i'w ran am ei raglennu meddylgar a beirniadol a'i dechneg ragorol. Fe'i cydnabyddir hefyd yn arbenigwr ar gerddoriaeth Nikolai Kapustin, wedi perfformio ac arwain premières byd ei gyfansoddiadau yng ngwledydd Prydain, yr Unol Daleithiau, Singapore, Awstralia a Taiwan.

Mae Thomas yn ymddiddori'n frwd mewn cerddoriaeth gyfoes a pherfformiodd waith John Cage yn y Purcell Room a Boulez yng Ngŵyl Gerdd Aldeburgh. Perfformiodd ei ddeuawd piano (*Duo Ex Libris*) weithiau piano cyflawn Boulez sydd heb fod yn sonatâu, gan gynnwys y ddau lyfr o *Structures* yn Llundain; chwaraeodd hefyd amryfal raglenni datganiad yn Awstralia ac o gwmpas gwledydd Prydain ac ymddangos sawl gwaith ar Radio 3. Mewn grwpiau siambr eraill mae'n cynnal diddordeb mawr mewn repertoire anghyffredin Rhamantaidd diweddar, yn ogystal â cherddoriaeth Prydain canol yr ugeinfed ganrif. Gweithiodd gydag arweinwyr megis Susanna Mälkki, Clement Power, Sian Edwards a Jonathan Berman yn ogystal â'r cyfansoddwyr Oliver Knussen, John Adams a Nikolai Kapustin yn chwarae eu cerddoriaeth. Chwaraeodd hefyd mewn dosbarthiadau gan Stephen Hough, Pierre-Laurent Aimard, Bengt Forsberg, Kathryn Stott a Yevgeny Sudbin ymhlith eraill. Ar wahân i'r llwyfan cyngerdd, mae Thomas yn gweithio'n répétiteur ac yn bianydd bale. Mae weithiau'n cyfeilio ac yn byrffyrrio i ffilmiau, gydag ymddangos mewn amryfal wyliau a digwyddiadau. Mae Thomas hefyd yn canu'r ffidil, yn barddoni ac yn sgrifennu trawsgrifiadau i'r piano o ganeuon a symffoniau.